



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ymarfer ar lafar cyn ysgrifennu
- ymateb ar lafar i destunau di-dor a phytiog
- gwyllo a chlywed gwahanol bobl yn siarad gan gynnwys pobl â thafodiaith wahanol a siaradwyr profiadol, ac ymateb i'r hyn a glywir ac a welir
- meithrin eu hyder wrth ddefnyddio'r iaith drwy dynnu ar eu gwybodaeth o'r Gymraeg, Saesneg ac ieithoedd eraill
- ymateb ar lafar i ystod o symbyliadau ac ysgogiadau a syniadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *delweddau llonydd a symudol, darn o gerddoriaeth, ffilm*
- cyfathrebu ar gyfer amrywiaeth o ddibenion a chyd-destunau, e.e. *adrodd yn ôl a chyflwyno gwybodaeth, rhoi a dilyn cyfres o gyfarwyddiadau, dadlau ac esbonio safbwynt, trafod pwnc, perswadio, cwestiynu ac archwilio dehongliadau, cyflwyno profiadau*
- siarad a gwrando'n unigol, fesul pâr, mewn grwpiau ac fel aelod o ddosbarth
- defnyddio amrywiaeth o ddulliau i gyflwyno syniadau gan gynnwys TGCh, e.e. *dulliau drama, cynnal trafodaeth a dadl*
- cyflwyno, siarad a pherfformio gerbron amrywiaeth o gynulleidfaoedd gan gynnwys dysgwyr iau a hŷn, athrawon, cyfoedion ac oedolion cyfarwydd ac anghyfarwydd ac mewn cyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol
- ymdrin â gweithgareddau lle y mae geiriau, eu tarddiad, eu hystyr, y rheswm dros eu dewis, a'u heffaith, yn ganolog
- gwyllo a gwrando'n astud gan ymateb i amrywiaeth o symbyliadau ac ysgogiadau, e.e. *testunau ysgrifenedig a deinamig, perfformiadau theatrig a barddonol, siaradwyr gwadd, esboniadau a chyfarwyddiadau*
- cyfathrebu'n glir gan ynganu a goslefu'n briodol yn y Gymraeg, e.e. *llefaru, adrodd stori*
- defnyddio terminoleg sy'n addas i'r sefyllfa
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i drafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, e.e. *gwaith awduron a chyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel testun normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Siarad	cyflwyno syniadau a phynciau yn ôl gofynion gwahanol gynulleidfaoedd	cyflwyno syniadau a phynciau i gwrdd â gofynion gwahanol gynulleidfaoedd
		siarad yn rhugl gan ddefnyddio ystod o dechnegau, dywediadau ac ystumiau	siarad yn rhugl ac yn hyderus gan ddefnyddio ystod o dechnegau, dywediadau ac ystumiau
		defnyddio iaith ffurfiol mewn ystod o gyd-destunau	defnyddio iaith ffurfiol mewn ystod eang o gyd-destunau
		ymateb i adwaith y gwrandawyr ac addasu eu hiaith yn ôl y cyd-destun a'r diben	ymateb yn hyderus i adwaith y gwrandawyr gan addasu eu hiaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ac at ddibenion gwahanol
		cyflwyno safbwynt gydag argyhoeddiad a chynnal y safbwynt hwnnw gan ragweld safbwyntiau eraill ac ymateb iddynt, e.e. <i>mewn rôl neu drafodaeth</i>	siarad gydag argyhoeddiad mewn ystod amrywiol o sefyllfaoedd a chyd-destunau i gwrdd â dibenion gwahanol
		strwythuro'u hiaith yn effeithiol gan ddefnyddio nodweddion di-eiriau i gwrdd ag amrywiaeth o sefyllfaoedd a chyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol gan ddefnyddio patrymau a chystrawennau naturiol y Gymraeg ❖	addasu'u hiaith yn effeithiol gan ddefnyddio nodweddion di-eiriau i gwrdd ag ystod eang o sefyllfaoedd a chyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol gan ddefnyddio patrymau a chystrawennau naturiol y Gymraeg ❖
		strwythuro ac ymestyn eu hiaith lafar yn hyderus; defnyddio ystod o batrymau cystrawennol, geirfa gyfoethog, fanwl-gywir (gan gynnwys terminoleg) gan wneud cyfraniadau sylweddol ac ystyrion sy'n ennyn diddordeb y gwrandawyr ❖	strwythuro ac ymestyn eu hiaith lafar yn hyderus; defnyddio ystod o batrymau cystrawennol, geirfa gyfoethog, fanwl-gywir (gan gynnwys terminoleg) a gwneud cyfraniadau sylweddol ac ystyrion sy'n ennyn diddordeb y gwrandawyr ❖
		meithrin cywirdeb ar lafar ac arddangos gafael dda iawn ar iaith, e.e. <i>ffurfiau berfau (amser a pherson), arddodiaid, cenedl enwau</i> ❖	meithrin cywirdeb ar lafar ac arddangos gafael dda iawn ar iaith, e.e. <i>ffurfiau berfau (amser a pherson), arddodiaid, cenedl enwau</i> ❖
defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun	defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun		



Llinyn: Llafaredd

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Datblygu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau	Gwrando	ymateb i syniadau eraill mewn ffordd ystyriol gan ofyn iddynt egluro eu hunain drwy ofyn cwestiynau priodol	ymateb yn hyderus ac yn sensitif i syniadau eraill mewn gwahanol sefyllfaoedd gan ystyried yr wybodaeth a'r syniadau dan sylw a gofyn cwestiynau perthnasol
		gwrando ar bob math o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau gan nodi sut mae gwahanol siaradwyr yn cyflwyno safbwyntiau penodol	gwrando ar ystod o wybodaeth a syniadau o wahanol safbwyntiau gan nodi sut mae gwahanol siaradwyr yn cyflwyno safbwyntiau penodol
	Cydweithio a thrafod	addasu sut maent yn siarad mewn pob math o rolau gan gynnwys sefyllfaoedd a chyd-destunau mwy ffurfiol, e.e. <i>siarad â chynulleidfaoedd mawr mewn trafodaeth ffurfiol</i>	addasu sut maent yn siarad mewn pob math o rolau gan gynnwys sefyllfaoedd a chyd-destunau mwy ffurfiol, e.e. <i>siarad â chynulleidfaoedd mawr mewn trafodaeth ffurfiol</i>
		wrth ymateb i ystod eang o bynciau a thestunau ysgrifenedig heriol, datblygu a chefnogi eu syniadau eu hunain a syniadau eraill gyda thystiolaeth gan drafod ac ymateb yn synhwyrol ❖	wrth ymateb i ystod eang o bynciau a thestunau ysgrifenedig heriol, datblygu a chefnogi eu syniadau eu hunain a syniadau eraill drwy resymu, dadansoddi a cheisio eglurhad am ragdybiaethau eraill ❖
		defnyddio opsiynau a strategaethau amrywiol er mwyn galluogi'r grŵp i ddod i gonsensws.	defnyddio opsiynau a strategaethau amrywiol er mwyn galluogi'r grŵp i ddod i gonsensws.

Ymestyn

Mae dysgwyr yn gallu:

- gwneud amrywiaeth o gyfraniadau at drafodaethau mewn ystod eang o gyd-destunau a sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol
- gwrando ar wybodaeth gymhleth gan roi ymatebion perthnasol, cymhellol a diddorol
- gwneud cyflwyniadau effeithiol mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau gan gyflwyno gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau cymhleth mewn ffordd ddarbwyllol
- cwrdd â gofynion amrywiaeth o rolau yn annibynnol a datblygu trafodaethau yn fedrus
- amrywio strwythurau brawddegau yn hyderus a dewis o eirfa eang i fynegi gwybodaeth a theimladau mewn ffordd ddiddorol a chreadigol.



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ddarllen ystod eang o destunau di-dor a phytiog, mewn fformat print neu mewn ffurf ddeinamig fel sail i'w hymatebion ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dylai'r rhain gynnwys:
 - testunau cyflawn a detholiadau
 - testunau gwybodaeth a chyfeiriol
 - barddoniaeth a rhyddiaith draddodiadol a chyfoes
 - nofelau graffig
 - drama, gan gynnwys perfformiadau drama
 - testunau sy'n ymwneud â phynciau heriol sy'n ehangu'r gorwelion, sy'n datblygu'r gallu i ymresymu
 - testunau sy'n cynnwys ystod o strwythurau, ffurfiau, pwrpasau, sy'n apelio at wahanol gynulleidfaoedd a dyfeisiau cyflwyno gwahanol
 - testunau sy'n gyfoethog o ran safon ac amrywiaeth ieithyddol
 - testunau sy'n adlewyrchu dewis darllen personol dysgwyr
 - testunau ag iddynt amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol
 - testunau sy'n ymestyn dealltwriaeth ddeallusol, foesol ac emosiynol dysgwyr
 - testunau sy'n amrywio o ran tôn, e.e. *testunau sy'n cynnwys parodi neu eironi*, *testunau sy'n chwarae ar eiriau*, *testunau coeglyd/testunau ensyniad*
 - testunau sy'n cynnig her
- deall sut mae testunau'n esblygu wrth ymateb i newidiadau cymdeithasol a thechnolegol
- darllen fel unigolyn a chydag eraill, e.e. *darllen mewn paru*, *darllen mewn grŵp dan arweiniad*, *darllen ar y cyd*, *darllen yn annibynnol*
- darllen at ddibenion gwahanol, e.e. *er mwynhad personol*, *i adalw gwybodaeth*, *i grynhoi a chyfosod gwybodaeth allweddol*, *i ddehongli a chyfuno gwybodaeth*, *i ddilysu gwybodaeth*, *i gyfoethogi dealltwriaeth drwy ail-ddarllen*, *i adnabod dyfeisiau iaith a ddefnyddir gan yr awdur*, *i ddadansoddi pwrpas ac i dreiddio dan groen testun am ystyr*
- datblygu'r iaith a'r derminoleg briodol i allu trafod, ystyried a gwerthuso eu gwaith eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron*, *beirdd*, *eu cyfoedion*, mewn testunau ysgrifenedig a deinamig.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu â'i gilydd i'w galluogi i ddod yn ddarllenwyr brwdfrydig, annibynnol a meddylgar.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel print normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon hwn.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Darllen

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth	Strategaethau darllen	defnyddio eu gwybodaeth am: <ul style="list-style-type: none"> – darddiad a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan	defnyddio eu gwybodaeth am: <ul style="list-style-type: none"> – darddiad a theuluoedd geiriau – cystrawen, strwythur y frawddeg a strwythur testun cyfan – cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan
		defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i> , i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl	defnyddio ystod o strategaethau, e.e. <i>darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi</i> , i gip ddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl
		gwerthuso nodweddion ystod eang o destunau heriol (di-dor a phytiog) o ran iaith, thema, strwythur a threfn/cyflwyniad ❖	gwerthuso nodweddion ystod eang o destunau heriol (di-dor a phytiog) yn hyderus o ran iaith, thema, strwythur a threfn/cyflwyniad ❖
		defnyddio'r rhyngrwyd gan ddewis a dethol testunau ac asesu pa mor ddibynadwy a phwysig ydynt	defnyddio'r rhyngrwyd gan ddewis a dethol testunau ac asesu pa mor ddibynadwy, pwysig a chywir ydynt
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	canolbwyntio ar ddarllen a dadansoddi ystod o destunau sy'n newydd iddynt, rhai sydd wedi'u hargraffu a thestunau aml-foddol gan weithio'n annibynnol	canolbwyntio ar ddarllen a dadansoddi ystod eang o destunau sy'n newydd iddynt, rhai sydd wedi'u hargraffu a thestunau aml-foddol gan weithio'n annibynnol
		dadansoddi testunau a'u his-destunau gan ymateb a chyfleu syniadau'n glir ac mewn ffordd briodol	dadansoddi ac ymateb i destunau a'u his-destunau yn hyderus gan ddeall a dehongli'r ystyr
		deall testunau'n gyflawn gan resymu a dadansoddi beth sydd dan wyneb testun a dod i gasgliad; dirnad sut y gall y cyd-destun ddylanwadu ar y darllenydd	deall testunau'n gyflawn gan resymu a dadansoddi beth sydd dan wyneb testun a dod i gasgliad; dirnad sut y gall y cyd-destun ddylanwadu ar y darllenydd
		cymharu a chyferbynnu themâu a phynciau ar draws ystod o destunau a gwneud cysylltiadau rhwng testunau	cymharu a chyferbynnu'n hyderus themâu a syniadau ar draws ystod eang o destunau, gan ystyried sut maent yn amrywio o ran eu diben a'u heffaith



Llinyn: Darllen

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd	Darllen a deall	ymchwilio ystod eang o ffynonellau'n annibynnol gan ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o bwnc anghyfarwydd	ymchwilio ystod eang o ffynonellau'n annibynnol gan ddatblygu dealltwriaeth gyflawn o bwnc sy'n gynyddol gymhleth
		gwneud cymariaethau a chysylltiadau gofalus rhwng testunau di-dor a/neu bytiog, e.e. trwy ddadansoddi thema/pwnc, iaith, techneg, strwythur, ffurf, cymeriadaeth ❖	gwneud cymariaethau a chysylltiadau manwl a chyson rhwng testunau di-dor a/neu bytiog, e.e. trwy ddadansoddi thema/pwnc, iaith, techneg, strwythur, ffurf, cymeriadaeth ❖
	Ymateb a dadansoddi	cyfodod a dadansoddi mwy nag un ffynhonnell wybodaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o destunau a all gyfleu syniadau sy'n gwrthdaro	cyfodod a dadansoddi mwy nag un ffynhonnell wybodaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn a chytbwys o destunau a all gyfleu syniadau sy'n gwrthdaro
		deall a gwahaniaethu rhwng ffaith/tystiolaeth a gogwydd/dadl gan wneud sylwadau ar bwyntiau amlwg a'r hyn sydd ymhlyg	deall ac ystyried yn fanwl sut y gellir dehongli testunau'n wahanol gan wahaniaethu rhwng ffaith/tystiolaeth a gogwydd/dadl
		gwneud sylwadau ar ddehongliadau gwahanol o bynciau a syniadau gan ddefnyddio'r testun i gefnogi eu barn	gwneud sylwadau ar ddehongliadau gwahanol o bynciau a syniadau gan ddefnyddio'r testun i gefnogi eu barn
		ymateb yn feirniadol i ystod eang o destunau di-dor a phytiog a'u dehongli mewn modd creadigol a rhesymegol ❖	ymateb yn feirniadol i ystod eang o destunau di-dor a phytiog gan ddangos dychymyg a gwreiddioldeb wrth eu dehongli ❖
		ystyried yr hyn y maent wedi ei ddarllen/gwylio gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith a'r drefn/cyflwyniad gan ddewis a dethol dystiolaeth o'r testun i gefnogi'r farn honno ❖	ystyried yr hyn y maent wedi ei ddarllen/gwylio gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith a'r drefn/cyflwyniad gan ddewis a dethol dystiolaeth o'r testun i gefnogi a chyfiawnhau'r farn honno ❖
		gwerthuso sut y caiff testunau eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau gan ystyried yn ofalus y diben a'r effaith a gânt ar y darllenydd/cynulleidfa, e.e. stori fer Kate Roberts Te yn y Grug a'r ffilm Mynydd Grug ❖	gwerthuso'n hyderus sut y caiff testunau gwahanol eu haddasu ar gyfer gwahanol gyfryngau gan roi ystyriaeth ofalus a beirniadol i'w diben a'r effaith y bwriedir iddynt eu cael ar y darllenydd/cynulleidfa ❖
gwerthuso diben, effaith a dibynadwyedd testunau.	gwerthuso diben, effaith a dibynadwyedd testunau yn hyderus.		



Ymestyn

Mae dysgwyr yn gallu:

- dethol, dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth, syniadau, barn, diben, ystyr ymhlyg a/neu ragfarn o fewn amrywiaeth eang o destunau a math o destunau
- cyfleu trosolwg cadarn o destunau heriol wrth gasglu gwybodaeth, syniadau, dadleuon a barn at ddibenion gwahanol
- ymateb mewn ffordd gymhellol a beirniadol gan ddangos gwreiddioldeb wrth ddadansoddi a dehongli
- ymateb mewn ffordd sicr a chraff i syniadau a themâu allweddol gan ddefnyddio dulliau casglu a dadansoddi yn effeithiol
- crynhoi a chyfuno gwybodaeth a syniadau yn gryno o ffynonellau gwahanol
- **ymateb yn bersonol, yn feirniadol ac yn berswadiol i amrywiaeth o destunau di-dor a phytiog gan werthuso sut mae iaith, gramadeg, strwythur a chyflwyniad yn effeithio ar y darllenydd ❖**
- **adnabod a thrafod gogwydd awduron mewn testunau disgrifiadol, naratif, dadlau, esbonio, trafod, cyfarwyddiadol a pherswâd gan ddewis dyfyniadau addas, gwneud cymariaethau a chroes gyfeirio i egluro pwrpas ac ystyr y testun. ❖**



Ystod o brofiadau

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr:

- ysgrifennu ar gyfer nifer o wahanol ddibenion gan gynnwys:
 - adrodd yn ôl
 - rhoi cyfarwyddiadau
 - cyflwyno gwybodaeth
 - esbonio
 - dadlau/perswadio
 - trafod/dadansoddi
 - gwerthuso
 - adrodd stori
 - disgrifio
 - dangos empathi
- ysgrifennu gan ddefnyddio amrywiaeth ac ystod o destunau di-dor a phytiog mewn amryw o ffurfiau, e.e. *llythyron, dyddiaduron, erthyglau, storiâu, adroddiadau, areithiau, dramâu a sgriptiau, taflenni gwybodaeth, hysbysebion, poster, tudalennau a thestun i'r we, holiaduron, adolygiadau, ymsonau*
- ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaeod real a dychmygol, e.e. *cyfoedion, dysgwyr iau, athrawon, aelodau teulu, cynulleidfaeod anghyfarwydd a chyfarwydd*
- ysgrifennu barddonol sy'n defnyddio delweddu a dyfeisiau barddonol, e.e. *odlau a ffurf*
- defnyddio ystod eang o ysgogiadau a symbyliadau gan gynnwys testunau ysgrifenedig a deinamig, e.e. *storiâu, llyfrau lluniau, cerddi, profiadau, ffilmiau, paentiadau, cerddoriaeth*
- defnyddio geirfa a therminoleg briodol i ystyried a gwerthuso eu gwaith hwy eu hunain a gwaith eraill, e.e. *awduron, cyfoedion*.

Dylai dysgwyr brofi ystod o brofiadau ieithyddol cyfoethog fel y gall eu sgiliau llafar, darllen ac ysgrifennu blethu drwy'i gilydd.

Mae'r Rhaglenni Astudio Cymraeg a'r Saesneg wedi eu datblygu law yn llaw. Gall dysgwyr ddefnyddio sgiliau trawsieithu a sgiliau deuol i ddatblygu'r ddwy iaith gan sicrhau bod cryfder mewn un iaith yn atgyfnerthu'r llall.

Allwedd

O fewn y tabl, bydd testun o'r FfLIRh yn ymddangos fel print normal. Bydd y sgiliau sydd yn benodol i'r Rhaglen Astudio Cymraeg yn cael eu dynodi gan brint trwm. Bydd y sgiliau hyn hefyd yn cael eu dynodi gan yr eicon canlynol.

Sgil rhaglen astudio ❖ Mae'r sgiliau hyn, ar y cyd â datganiadau'r FfLIRh, yn ffurfio'r Rhaglen Astudio Cyfnod Allweddol 4 Cymraeg.

D.S.

Er mwyn bod yn hygyrch ac yn ddarllenadwy, dyluniwyd y tablau hyn i'w hargraffu ar faint A3.



Llinyn: Ysgrifennu

		↔	Blwyddyn 10	↔	Blwyddyn 11
Elfennau	Agweddau		Mae dysgwyr yn gallu:		Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Ystyr, dibenion, darllenwyr		ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi gan ddangos ymwybyddiaeth glir o bwy yw'r darlennydd neu'r gynulleidfa		ysgrifennu darnau estynedig sy'n cynnwys tystiolaeth a gwybodaeth fanwl, ynghyd â darnau byrrach sy'n crynhoi gan ddangos ymwybyddiaeth glir o bwy yw'r darlennydd neu'r gynulleidfa
			dangos rheolaeth, meistrolaeth a gwreiddioldeb wrth ysgrifennu mewn ffurfiau di-dor a phytiog, e.e. ffurfio cymeriadau argyhoeddiadol a datblygu plot gan roi sylw i gyflymder, siâp, manylion a dyfeisiau penodol eraill, er mwyn dal a chynnal diddordeb y darlennydd ❖		dangos rheolaeth, meistrolaeth a gwreiddioldeb wrth ysgrifennu ffurfiau di-dor a phytiog, e.e. ffurfio cymeriadau argyhoeddiadol a datblygu plot gan roi sylw i gyflymder, siâp, manylion a dyfeisiau penodol eraill, er mwyn hoelio diddordeb y darlennydd ❖
			llunio ymatebion sy'n cysylltu ac yn datblygu syniadau i roi sylw i bob elfen o'r pwnc		llunio ymatebion manwl yn hyderus gan gysylltu a datblygu syniadau i roi sylw i bob elfen o'r pwnc
			cynllunio'n briodol i ddatblygu sut y maent yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd		cynllunio'n briodol i ddatblygu sut y maent yn ysgrifennu ar gyfer amrywiaeth gynyddol heriol o wahanol ddibenion a chynulleidfaoedd
			defnyddio adnoddau a chonfensiynau TGCh mewn ffordd greadigol a phriodol er mwyn cyfathrebu'n effeithiol ar draws ystod o gyd-destunau		defnyddio adnoddau a chonfensiynau TGCh mewn ffordd greadigol a phriodol er mwyn cyfathrebu ar draws ystod o gyd-destunau sy'n gynyddol amrywiol a heriol
			prawf ddarllen eu gwaith eu hunain a gwaith eraill yn annibynnol gan ei olygu'n ofalus a defnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion i werthuso a gwella'r testun yn hyderus ❖		prawf ddarllen eu gwaith eu hunain a gwaith eraill yn annibynnol gan ei olygu'n ofalus a defnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion i werthuso a gwella'r testun yn hyderus ac yn effeithiol ❖
			gwella cynnwys, strwythur a chywirdeb eu hysgrifennu drwy ei adolygu a'i olygu'n annibynnol		gwella cynnwys, strwythur a chywirdeb eu hysgrifennu drwy ei adolygu a'i olygu'n annibynnol



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Strwythur a threfn	ysgrifennu'n annibynnol ar ffurf briodol gyda hyder cynyddol gan sicrhau bod y cynnwys yn drefnus, yn fanwl ac yn berthnasol, e.e. <i>cyflwyno safbwyntiau, gwybodaeth ac esboniadau yn y ffordd orau</i>	ysgrifennu'n annibynnol ar ffurf briodol yn hyderus gan sicrhau bod y cynnwys yn drefnus, yn fanwl ac yn berthnasol, e.e. <i>i esbonio proses, cyfleu dadl</i>
		dangos ymwybyddiaeth glir o wahanol ddarllenwyr drwy ddewis amrywiaeth o arddulliau a strwythurau ac addasu eu defnydd o iaith	dangos ymwybyddiaeth gyson o wahanol ddarllenwyr drwy ddewis amrywiaeth o arddulliau a strwythurau ac addasu eu defnydd o iaith mewn ffordd briodol
		trefnu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu ar ffurf briodol gan sicrhau bod y cynnwys yn fanwl oddi mewn a rhwng paragraffau neu adrannau	trefnu'r hyn y maent yn ei ysgrifennu ar ffurf briodol gan sicrhau bod y cynnwys yn fanwl oddi mewn a rhwng paragraffau neu adrannau a chan ddatblygu a chynnal syniadau mewn ffordd ystyrlon
	Iaith	defnyddio iaith er mwyn bod yn wrthrychol a diduedd a chydabod y gallai fod mwy nag un safbwynt, e.e. <i>defnyddio geiriau fel 'gellid dadlau', 'gellid gweld bod ...'</i>	gwneud defnydd o iaith er mwyn bod yn wrthrychol a diduedd wrth ddelio â phynciau sy'n gynyddol gymhleth gan ddefnyddio ystod o ddyfeisiau ieithyddol
		defnyddio amrywiaeth eang o dermau technegol, geirfa briodol a mynegiant at ddibenion gwahanol gan greu effeithiau gwahanol, e.e. <i>perswadio, rhoi gwybodaeth, diddanu</i>	defnyddio amrywiaeth eang o dermau technegol yn gywir a defnyddio geirfa a'r mynegiant priodol i adlewyrchu gofynion y dasg ac i greu effeithiau gwahanol, e.e. <i>crynhoi dadl</i>
		defnyddio geirfa uchelgeisiol yn briodol ac yn gywir i gyfleu ystyr a chreu effeithiau bwriadol ❖	defnyddio geirfa uchelgeisiol yn hyderus ac yn gywir i gyfleu ystyr a chreu effeithiau bwriadol ❖



Llinyn: Ysgrifennu

Elfennau	Agweddau	Blwyddyn 10	Blwyddyn 11
		Mae dysgwyr yn gallu:	Mae dysgwyr yn gallu:
Trefnu syniadau a gwybodaeth	Cystrawen Atalnodi Sillafu Llawysgrifen	dangos gafael gadarn ar iaith a chystrawen y Gymraeg a saernïo'u hiaith yn ofalus wrth ysgrifennu, e.e. <i>defnyddio ystod o ffurfiau berfol i bwrpas, negyddu brawddegau, rhedeg arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau'n gywir</i> ❖	dangos gafael gadarn ar iaith a chystrawen y Gymraeg gan saernïo'u hiaith yn hyderus wrth ysgrifennu, e.e. <i>defnyddio ystod o ffurfiau berfol i bwrpas, negyddu brawddegau, rhedeg arddodiaid, gwahaniaethu rhwng geiriau tebyg a defnyddio cenedl enwau'n gywir</i> ❖
		amrywio strwythurau brawddegau er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y darlennydd ac ysgrifennu'n ramadegol gywir	amrywio strwythurau brawddegau er mwyn ennyn a chynnal diddordeb y darlennydd ac ysgrifennu'n ramadegol gywir
		defnyddio ystod gyflawn o atalnodi er mwyn cyflymu ac arafu'r dweud, sicrhau bod yr ystyr yn glir, osgoi amwysedd a chreu effaith bwrpasol	defnyddio ystod gyflawn o atalnodi er mwyn cyflymu ac arafu'r dweud, sicrhau bod yr ystyr yn glir, osgoi amwysedd a chreu effaith bwrpasol
		defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau amrywiol i sillafu ystod gynyddol o eiriau cyfarwydd, geiriau anghyfarwydd a geiriau sy'n benodol i faes arbennig yn gywir	defnyddio ystod o strategaethau ac adnoddau amrywiol i sillafu ystod gynyddol o eiriau cyfarwydd, geiriau anghyfarwydd a geiriau sy'n benodol i faes arbennig yn gywir
		cyflwyno'u gwaith yn effeithiol, yn ysgrifenedig neu ar sgrin gan ddewis ffurf, delweddau a graffeg i helpu i gyfleu'r ystyr	cyflwyno'u gwaith yn effeithiol, yn ysgrifenedig neu ar sgrin gan ddewis ffurf, delweddau a graffeg i helpu i gyfleu'r ystyr
		ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun	ysgrifennu'n ramadegol gywir gan sicrhau bod amser a pherson y ferf yn gywir yn ei gyd-destun
		defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun.	defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun.

Ymestyn

Mae dysgwyr yn gallu:

- ysgrifennu gan ddangos rheolaeth hyderus a sicr ar amrywiaeth o ffurfiau ac arddulliau sy'n briodol i'r dasg a'r diben
- ysgrifennu i ennyn diddordeb y darlennydd ac yn gallu ei gynnal drwy ddadl resymegol, grym perswadiol neu wreiddioldeb ysbrydoledig
- defnyddio nodweddion ieithyddol a strwythurol mewn ffordd fedrus i roi testunau mewn trefn a chyflawni cydlyniaeth
- ysgrifennu dogfennau ar bynciau cymhleth, yn gryno ac yn glir, yn rhesymegol ac yn ddarbwyllol gan gynnwys darnau ysgrifennu estynedig gan gyfleu gwybodaeth, syniadau a barn yn effeithiol ac yn ddarbwyllol
- defnyddio amrywiaeth eang o strwythurau brawddegau cywir gan sicrhau eglurder
- dewis geirfa uchelgeisiol a chreadigol
- defnyddio gramadeg, atalnodi a sillafu cywir
- **defnyddio ystod o strategaethau hunanasesu ac asesu cyfoedion yn hyderus.** ❖